Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 5.] MAI, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Beth mae Undodiaid yn Credu?
"Bywyd Iesu" gan Renan.
Ymson y Myfyriwr.
Cyfarfodydd Sefydlu y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D.
Titus Titus, Pencader.
Congl yr Awen.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsm o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyfer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD, PRIS 2s. 6c.

Yr Hen a'r Newydd mewn Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS, B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynydd", Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1908. [CYF. VIII. RHIF 5.

AR EDYN FFYDD.

BOREU SABBATH YN NHY DDUW.

FENDIGEDIG foreu, Sabbath newydd yw ;
Braint yw cael ei ddechreu yn nghynteddau Duw.

Sabbath glân a sanctaidd, dydd addoli yw ;
Plygwn ninau'n wylaidd wrth allorau Duw.

Treuliwn hwn i'r Arglwydd, dydd i foli yw ;
Canmol mewn llawenydd wnawn ddaioni Duw.

Am ei drugareddau, dydd i ddiolch yw ;
Tynwn o drysorau addewidion Duw.

Dydd i dderbyn bendith adnewyddol yw ;
Ceisiwn oll yn ddilyth ddydd ar Fynydd Duw.—T.W.

EIN Duw daionus a'n Tad tirion ! O'th fawr drugaredd estynaist ini eto y Sabbath newydd hwn. Atolwg, cynorthwya ni i ddyfod i'th byrth â diolch ac i'th gynteddau â mawl. Pâr ini oll gofio am dy allorau, a helpia ni i offrymu megys ar Fynydd Duw. Galluoga ni i dy addoli mewn yspryd a gwirionedd, fel y byddo ein addoliad yn bur ac yn gymeradwy ger dy fron, gwasanaeth y dydd yn cael ei le priodol, a ninau'n gyfoethocach o fendithion nef ; a maddeu holl ddiffygion ein gwasanaeth er mwyn dy enw sanctaidd. Amen.

NODION Y MIS.

OES cynydd yw yr oes hon. Yn wir, oes cynydd yw pob oes ond y mae hon felly mewn ystyr neillduol. Gwelir adfywiad bron yn mhob cangen o weithgarwch. Mewn gwleidyddiaeth ceir y Blaid Lafur, yn ein bywyd ymarferol mae genym ein Cymdeithasiaeth, ac mewn Duwinyddiaeth ceir cynhyrfiadau cyffelyb yn myned o dan wahanol enwau. Swn y *New Theology* sydd i'w glywed yn y wlad hon, a *Modernism* ar y cyfandir. Un yw gwreiddyn yr oll. Arwyddid ef yn y chwildroad Ffrengig gan y tri gair, "Rhyddid, Cydraddoldeb, Brawdoliaeth."

Dywedai prophwydi Baal ychydig amser yn ol mai oes fer oedd iddynt i gyd, a chlywir adsain o'r un cri hyd yn oed heddyw gan rai o'u canlynwyr, ond nid yw prophwydoliaeth—yn enwedig pan y digwyddo fod yn gau—byth yn ddigon i ladd y gwir a sychu'r ffynon o ba un y tardd. Ac y mae arweinwyr yr hen gyfundrefn wedi dyfod i weled hyny bellach. Felly rhaid chwilio am foddion mwy effeithiol, ac yn gyntaf cawn olynydd Pedr—Pab Pius X.—yn danfon ei genad allan i'r byd i ddweyd fod coleddu yr ysbryd newydd yn waharddedig. Yn nesaf cawn—pwy? Archesgob Caergaint? O na, Cadeirwyr yr Undeb Cynulleidfaol ac ychydig o athrawon eu colegau yn gyru ar edyn yr awel ryw edliw gwan o lythyr tad yr Eglwys Lan Gatholig. Os ydych am weled effaith cynlluniau o'r fath hyn ymaflwch mewn deilen a gosodwch hi yn esmwyth ar wyneb y lli. Dychmygaf ar brydiau fod rhai pobl a'u sel yn fawr dros Dduw yn hiraethu ar ol y stanc a'r ffagod dân. Offerynau defnyddiol yw rhain pan fyddo pob darbwylliad yn methu cyrhaedd yr amcan.

Yn awr carwn ofyn y cwestiwn oedd genyf mewn golwg ar y cychwyn, beth yw ymddygiad Cymru yn ngwyneb y cyffro cyffredinol sydd ar wasgar dros y byd? Nis gallaf ateb dros yr oll o'r Dywysogaeth, ond credaf fod y Deheudir wedi ei lefeinio i raddau mwy na'r Gogledd. Yn Nhreorchy, Cwm Rhondda ceir *Progressive Theology League,* amcan yr hon yw astudio Duwinyddiaeth yn ngoleuni darganfyddiadau diweddaraf. Y mae hanes cychwyniad y Gymdeithas yn un ddyddorol. Nis gallaf yma ond rhoddi braslun byr ac anmherffaith.

Yn mis Medi diweddaf teimlai ychydig o bobl ieuainc y lle, perthynol i'r gwahanol enwadau, awydd am glywed beth oedd gan genhadon yr hyn adnabyddid wrth y *New Theology* i ddweyd drostynt eu

hunain. Ond gan i'r eglwysi wrthod cydsynied a'u cais cymerasant y cam cyntaf arweiniodd i'r symudiad sydd heddyw mor flodeuog. Cof genyf gael rhybudd un diwrnod i fod yn bresenol mewn cyfarfod i drafod materion, a dyna lle'r oeddem, rhyw ddwsin o honom—cigydd, argraffydd, glowyr, masnachwyr ac yn y blaen yn eistedd o gylch y tân mewn ystafell fechan ddiaddurn yn siarad am y cynllun goreu i ddwyn crefydd rydd at galon Cymru. Nid rhyfedd fod y meddwl yn rhedeg yn ol at flynyddau cyntaf y cyfnod Cristionogol pan oedd canlynwyr Iesu croeshoeliedig, dosbarth gweithiol Palestina yn cwrdd o dy i dy er ceisio cadw yn nghŷn y tân oedd eu hathraw wedi gyneu yn nghalon y ddynoliaeth.

Penderfynwyd ar unwaith fel y modd i ddwyn y symudiad i sylw y werin gael cyfres o bregethau a darlithiau. Y cyntaf i dalu ymweliad a ni oedd Dr. Warschauer, yr hwn oedd gynt yn weinidog gyda'r Undodiaid yn Mryste. Bu yr anturiaeth yn llwyddiant hollol. Cafwyd cynulleidfa gymharol dda yn y prydnawn ond yn yr hwyr yr oedd y lle yn orlawn. Y *League* oedd testyn dadleu yn awr rhwng bob dau. Bu y Bedyddwyr Seisnig y tro hwn mor garedig a rhoddi benthyg capel i ni ac hefyd y tro nesaf ar achlysur ymweliad Dr. Duff o Bradford. Yr oedd y dyddordeb yn awr yn cynyddu ac ochr yn ochr a hyny gwrthwynebiad y corph. Pan ddaeth yr adnabyddus Ddr. Hunter i lawr o Glasgow cauwyd pob drws yn ein herbyn yn Nhreorchy a rhaid oedd myned mor bell a'r Ton, lle gosodwyd at ein gwasanaeth yr Eglwys Gynulleidfaol, yr hon o dan weinidogaeth y Parch. J. Lewis, M.A., sydd i raddau helaeth iawn mewn cydymdeimlad a'r achos. Yn nesaf ar ol hyn daeth y Parch. T. Rhondda Williams i dalu ymweliad a ni, ac o barch i'n cydwladwr hyawdl a disglaer, nid gormod yw dweyd mai hon yn ol barn y mwyafrif oedd y ddarlith oreu yn y gyfres i gyd. Dyna beth oedd cymeryd y lle *by storm*. Cynhaliwyd y cyfarfod y tro hwn yn nghapel yr Undodiaid yn Glan Rhondda.

Yn marn y bobl, fodd bynag, y brif wledd oedd ymweliad y Parch. R. J. Campbell, M.A., Gweinidog y City Temple. Gan fod cymaint yn awyddus am ei glywed sicrhawyd neuadd helaeth yn y Ton. Ond er ein holl barotoadau i gyd cafodd rai canoedd eu siomi a llawer o honynt wedi dyfod o bellder ffordd. Trefnodd y cyfeillion iawnffyddol gadw cyfarfodydd pregethu mewn gwrthwynebiad yn ein hymyl ac yr oedd Mr. Prytherch yn un yn pregethu, ond ni fedrai dim droi cwrs y lli y diwrnod hwnw. Pan gyrhaeddodd Mr. Campbell y lle yr oedd y torfeydd wedi ymrestru bob ochr y ffordd, a'r unig arwyddion petrusder o barthed i'w enaid welid oedd banerau cochion yn chwifio, ac adnodau yn ysgrifenedig arnynt mewn llythyrenau gwynion. Mae yna rywbeth yn mhersonoliaeth gweinidog y City

Temple sydd yn lleddfu eiddigedd, a beiddiaf ddweyd fod llawer i un aeth i'w wrando mewn chwerwder ysbryd wedi dyfod allan yn llawn o edmygedd a pharch tuag ato. Gadawodd argraff ardderchog ar ei ol, a dymuniad pawb yw cael ei glywed eto yn fuan.

Fel yr wyf wedi awgrymu yn barod nid yw y symudiad wedi bod heb lawer o wrthwynebiad yn ei erbyn. Cynhelir cyfarfodydd i'n gwrthsefyll, cauir y drysau yn ein herbyn, hyrddir bygythion at ein penau, ac ambell waith dywedir pethau anwir ac anweddaidd am danom, ond yn ngwyneb y cyfan i gyd llwyddiant hyd yma yw ein rhan. Mae'r aelodaeth wedi myned i fynu o haner dwsin i haner cant, ac yn awr gwelir canghenau newyddion ar fin cael eu sefydlu mewn manau eraill er cario mlaen yr un gwaith. Mewn byr amser bydd cymdeithas yn Nhonypandy yn cynwys dros gant o aelodau. Nid wyf am brophwydo, ond anturiaf ddweyd wrth derfynu fod y cyffro presenol i newid gwedd crefydd Cymru. Beth yw yr arwyddion? Pobl ieuainc goleuedig wedi anfoddloni ar yr hen, ac yn ymgynull at eu gilydd i chwilio am rywbeth gwell a mwy cydnaws ag ysbryd yr oes. Ni ddaw dim heb weithio a brwydro a dyoddef i raddau mwy neu lai. Yn holl hanes y byd gwelir yr hen yn marw mewn ing a'r newydd yn cael ei eni mewn poen. Pwy hiraetha ar ol Cymru Fu os y gwelwn Gymru Fydd yn esgyn o ganol y llwch i glod a bri yn mysg cenhedloedd y byd?

BETH MAE UNDODIAID YN GREDU?

Y mae'n llawen genym glywed y cwestiwn yn cael ei ofyn.

1. Am ei fod yn awgrymu rhyw ddyddordeb yn yr ateb. Hawliwn am ein crefydd ei bod y fwyaf syml a'r fwyaf rhesymol; ond nis gallwn ei gwthio ar yr anewyllysgar a'r diofal, ac ni fynem pe gallem, nid ydym yn gofyn ond cael gwrandawiad.

2. Am ei fod yn addefiad fod Undodiaid yn credu. Y mae yna argraff lled gyffredin mai pobl yw'r Undodiaid sydd yn anghredu llawer, ac heb gredu dim yn neillduol. Mae'n ddiameu fod rhai dynion weithiau yn cymeryd yr enw oblegid yr hyn a wedir, tra'n hollol ddiofal o'r hyn a gadarnheir. Nid Undodiaid mewn gwir yw'r cyfryw, nid ydynt ond gwrth-drindodiaid yn unig; nid oes y fath beth a chrefydd o anghrediniaeth, na help na chysur i'w gael mewn negyddiaeth yn unig.

Anhawdd rhoi ateb plaen i'r ymholiad,—

BETH GRED UNDODIAID?

gan fod yr Undodiaid, yn wahanol i bob enwad arall, yn gwrthod derbyn Credo neu Gyffes Ffydd awdurdodol. Os dewis rhywun ymuno a hwy, fe dybir ei fod yn gwneuthur hyny am fod ffurf eu haddoliad yn gymeradwy a'i fod yn cytuno fwy neu lai a'r hyn a glyw yn gyffredin o'u pwlpudau. Ni ofynir iddo, beth mae'n gredu neu anghredu; fe etyb i Dduw ac i'w gydwybod ei hunan yn unig; ymaeloda mewn cynulleidfa yn wirfoddol, ac nid oblegid penderfyniad eraill yn mherthynas i'w ffydd neu ei gymhwysder.

Felly mae'n digwydd fod rhai Undodiaid yn llawer nes at ffurfiau poblogaidd crefydd nag y mae eraill, ac nid oes gan neb hawl i daflu bai ar arall am ei fod yn credu mwy neu lai na'i hunan. Eto, y mae yna rai pethau y mae cytundeb cyffredin yn eu cylch yn mhlith yr Undodiaid, ac felly atebwn fod yr Undodiaid yn credu

YN NUW,

fod yna Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll a thrwy oll ac yn oll,[1] y Bendigedig a'r unig Benaeth,[2] anfeidrol ddoeth a da, yr hwn sydd yn gweithredu pob peth yn mhawb,[3] yn yr hwn yr ydym yn byw, symud a bod.[4]

CREDANT AM DDYN,

Nid fod Israel yn unig, ond fod pawb dynolryw yn bobl i Dduw. Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym a defaid ei borfa.[5] Ceir rhai pobloedd eto mewn cyflwr o blentyndod; a rhai sydd wedi tyfu i fynu, yn blant mewn deall;[6] ond oll yn gyffelyb, gwaraidd ac anwaraidd, Cristion ac Iuddew, da a drwg, oll yn blant Duw; oll gan hyny yn frodyr ac o dan rwymau i garu ein gilydd. Y mae genym bawb ddyfodiad at yr un Tad, ac hyd yn oed yr afradlon y mae eto yn fab, ac yn sicr o roesaw a phardwn pan ddychwelo.

AM IESU.

Fod Iesu o Nazareth yr un a anfonodd Duw i bregethu tangnefedd,[7] gan ein dysgu i'w garu a'i barchu fel ein Tad yn y nefoedd, i faddeu megys y carem faddeuant, ac i wneuthur i eraill fel y carem fod eraill yn gwneuthur i ni.

AM GREFYDD.

Fod ar bawb angen gwrthrych addoliad, rhywun y gallant deimlo ei fod yn deilwng o'u parch uwchaf; fod crefydd yn fynegiad o'r anghen hwn mewn meddwl, gair, a gweithred, cyffes dyn a'i ddy-

---

[1]Eph. 4 : 6; [2]1 Tim. 6 : 15; [3]1 Cor. 12 : 6; [4]Actau 17 : 28; [5]Ps. 100 : 3; [6]1 Cor. 14 : 20; [7]Actau 10 : 36.

byniad ar, a'i gyfrifoldeb i Allu Uwch. Ni fydd y mynegiad hwn ar y goreu ond megys lispiad plant bach, a gall fod yn fynych mewn rhan helaeth yn ffug; ond os yn ddiffuant ac heb fod yn hollol wyrdroedig; credwn ei fod yn dderbyniol ganddo ef sydd yn tosturio wrthym yn ein hanwybodaeth a'n diniweidrwydd; canys efe a edwyn ein defnydd ni, cofia mai llwch ydym.[1]

Am y Beibl.

Fod y Beibl yn adroddiad o feddyliau dynion defosiynol am Dduw a'i weithredoedd, a'r modd i'w wasanaethu, yn ol fel y mae o oes i oes wedi dadguddio ei hun yn fwy cyflawn; mae efe uwch pob llyfr arall yn Llyfr Profiad crefyddol i'w ddarllen a'i barchu gan bawb a fynant ddysgu oddiwrth wersi'r gorphenol, gwersi sydd mor anhawdd eu dysgu ac mor hawdd eu hanghofio.

Am Weddi.

Fod gweddi yn golygu dyrchafiad ein meddyliau at Dduw, a mynegiad o ddymuniad ein calon yn ei bresenoldeb.

Am Iachawdwriaeth.

Ei fod yn gynwysedig mewn rhyddhad oddiwrth bechod a chyfeiliornad a thrueni; a bod ffurfiau crefydd i'w barnu yn ol mesur eu heffeithiolrwydd i achub dynion oddiwrth y drygau hyn.

Am y Bywyd Dyfodol.

Yr ymdarawn yn ddrwg neu yn dda ar ol marw, yn gywir yn ol fel y byddwn wedi byw yn dda neu yn ddrwg yn y byd hwn, yn ngeiriau'r proffwyd:—Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn, canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhant. Gwae yr anwir, drwg fydd iddo, canys gwobr ei ddwylaw ei hun a fydd iddo.[2]

Am Ddaioni a Chyfiawnder Duw.

Yn ddiweddaf, fod Duw yn well na'r goreu o dadau,[3] yn fwy cyfiawn na'r unionaf o farnwyr,[4] y gallwn gan hyny gyflwyno ein hunain iddo ef mewn perffaith hyder y gwna efe yn wastad â ni yr hyn fydd yn oreu er ein lles, yma ac yn mhob man, yn awr ac am byth.

Y Ffydd Gatholig.

Hon, yn ol yr Undodwr, yw y wir Ffydd Gatholig (neu gyffredinol) sydd yn gorwedd o dan bob ffurf o grefydd, a'r hon os cred dyn hi

---

[1]Ps. 103 : 14; [2]Esa. 3 : 10, 11; [3]Mat. 7 : 11; [4]Gen. 18 : 25.

a'i byw hi, bydd yn sicr o fod yn gadwedig nad i ba eglwys y perthyn efe iddi, nad pa gymaint neu ba cyn lleied heb law y dichon iddo gredu. *O'r tu arall*—

NID YW UNDODIAID YN CREDU:

Fod Iesu o Nazareth yn Dduw, yn ail Berson o Drindod Ddwyfol, wedi cymeryd arno natur ddynol.

Fod Ysbryd Glân Duw yn Berson ar wahan oddiwrth y Tad, yn drydydd mewn Trindod sydd yn Un Duw.

Fod y Beibl yn anffaeledig Air Duw, fel yr ydym yn rhwym o gredu pa beth bynag ellir ei brofi trwy Destunau.

Fod Dyn yn greadur syrthiedig, ac mewn angen o gyfryngwr i'w gymodi a Duw.

Fod eglwys, neu sacramentau, neu gredo, neu Feibl, un neu'r oll, yn angenrheidiol er sicrhau pardwn a bendith Duw.

Fod marwolaeth yn derfyn pob ymdrech a phob gobaith, fel ag i wneud y bywyd hwn yn unig gyfleusdra profiad, na bod gwae neu wynfyd anghyfnewidiol yn canlyn ar ei ol.

Fod yna Ddiafol ac Uffern, neu fod yn mydysawd Duw unrhyw le neu berson, yn yr hwn y mae drwg a chas a thrueni yn parhau yn dragwyddol.

Dyna grynodeb byr o'r "Erthyglau Ffydd" fel y derbynir hwy yn gyffredin yn ein plith; ond nid oes iddo'r un awdurdod fel rheol Ffydd wrth yr hon y dichon eglwys, neu weinidog, neu aelod gael ei farnu yn awr neu rywbryd eto. Nid ydym yn rhwymo ein hunain i barhau yn wastad yn yr un gred a ymddengys i ni yn bresenol yn oreu ac yn fwyaf cywir, gan ein bod yn edrych am fwy o oleuni fel y mae gwybodaeth yn cynyddu, a'n dymuniad yw bod yn barod bob amser i gyffesu pan fyddwn wedi camsynied neu wedi ein camhyspysu. Llawer llai y dymunwn ni rwymo eraill, ein cyd-addolwyr neu ein olynwyr. Daliwn mai i Dduw yn unig y mae pob dyn yn gyfrifol am ei ffydd ac am ei ffordd o addoli.

Ond fel y dywed Iesu wrthym, y gwirionedd yn unig a'n rhyddha ni; os mynwn fod yn rhydd oddiwrth ymrwymiadau y rhai nad yw Duw wedi osod arnom, a chael ein dilwytho o'r baich o athrawiaethau na ddadguddiwyd ganddo ef, dylem deimlo fod galw arnom—megys y mae yn ddyledswydd ac yn rhagorfraint—"brofi pob peth a dal yr hyn sy dda."[1]—*Y Parch. Charles Hargrove, M.A.*

---

[1] 1 Thess. 5 : 21.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD IV.

Syniadau Iesu parthed Duw fel Tad ac am Grefydd Bur.

Bu farw Joseph cyn i'w fab gyrhaedd unrhyw gyhoeddusrwydd. Felly ei fam, Mair, oedd y penteulu wedi'r amgylchiad hwn ; eglura hyn paham y gelwid ei mab, pan y dymunid ei wahaniaethu oddiwrth ereill o'r un enw, yn "Fab Mair." Gan ei bod, 'r ol marwolaeth ei gwr, wedi ymddieithrio yn Nazareth, ymneillduodd i Cana, lle y mae'n bosibl y ganed hi. Cana oedd dref fechan o bellder taith dwy-awr neu ddwyawr a haner o Nazareth, wrth draed y mynyddoedd a ffurfiant derfyn gogleddol gwastadedd Asochis. Ymestyn yr olygfa, yr hon sydd lai arddunol na'r eiddo Nazareth, dros yr holl wastadedd, gyda bryniau Seppharis a mynyddau Nazareth yn llinellau terfyn iddi. Yma y mae'n debygol y treuliodd ran o'i febyd, ac y cymerodd le rai o ddadguddiadau cyntaf ei fawredd.

Dilynai alwedigaeth ei dad, sef gwaith saer. Nid oedd dim yn y ffaith hon i'w iselhau na pheri cywilydd iddo. Yr oedd yn arferiad Iddewig i bob un a ddilynai alwedigaeth ddysgedig hefyd i gymeryd rhyw grefft. Yr oedd y dysgawdwyr mwyaf enwog yn medru rhyw waith llaw fel hyn ; dyma paham yr oedd St. Paul, yr hwn a gawsai addysg oreu ei ddydd, yn wneuthurwr pebyll.

Ni fu Iesu erioed yn briod. Cadwodd holl nerth ei gariad yn gyfangwbl at ei alwedigaeth ddwyfol. Nis gellir gwahanu'r teimlad tra llednais a ddengys at y rhyw fenywaidd oddiwrth ei serch angerddol at ei ddelfryd mawr. Fel Francis o Assisi a Francis o Sales edrychai ar y gwragedd a gydweithredent ag ef fel chwiorydd ; yr oedd ganddo ei St. Clare, a'i Frances o Chantal. Er hyny y mae'n debyg fod y rhai'n yn ei garu ef yn fwy na'i waith ; yn ddiau yr oedd eu cariad ato ef yn fwy na'i serch ef atynt hwy. Felly, megys ag y digwydd yn aml gydag anianawd tra aruchel, yr oedd tynerwch calon ynddo ef yn troi yn rhyw felusder diddiwedd, yn farddoniaeth anweledig, yn rhyw swyn cyffredinol a diderfyn. Beth oedd natur ymdaith feddyliol Iesu yn ystod yr amser dinod hwn o'i fywyd ? Pa fyfyrdodau a'i gyrodd yn mlaen i'r bywyd prophwydoliaethol ? Nis gwyddis, oblegid nis erys o'r hanes ond mân hanesiad heb unrhyw amseriad cywir. Ond y mae dadblygiad cynyrchion byw bob amser yr un fath, ac nid oes amheuaeth na ddarfu tyfiant personoliaeth Iesu ufuddhau deddfau o'r mwyaf penodol. Rhyw syniad uchel am Ddwyfoldeb, syniad na chafodd erioed gan Iddewaeth, ond a grewyd yn hollol yn ei enaid ei hun ; hwn i raddau mawr oedd egwyddor ei nerth. Y syniad o Dduw fel Tad, llais yr hwn a glywir yn nhawelwch y gydwybod ac yn nistawrwydd y galon. Ni chafodd Iesu weledigaethau ; ni siaradai Duw ag ef fel rhywun o'r tu allan iddo ; yr oedd Duw o'i fewn ; teimlai ei hun gyda Duw ; a thynai o'i fynwes ei hun yr hyn a ddywedai am Dduw. Yr oedd yn byw yn mynwes Duw drwy gymundeb beunyddiol ag Ef ; nis gwelai Ef, ond clywai ei lais, heb gymhorth y daran neu'r berth yn llosgi fel Moses, dadguddiad y dymhestl fel Job, yr oracl fel hen ddoethwyr Groeg, yspryd gwasanaethgar fel Socrates, a'r Angel Gabriel fel Mahomed. Nis gwelir crebwyll a gweledigaethau St. Theresa o gwbl. Nid yw meddwdod y Sufi, yn haeru ei fod yn un a Duw, i'w glywed yma ychwaith. Ni ddarfu Iesu erioed roddi bod i'r

syniad cableddus ei fod yn Dduw. Credai ei fod mewn cymundeb uniongyrchol â Duw; credai ei fod yn fab Duw! yr ymwybyddiaeth uchaf am Dduw a fu erioed yn y fynwes ddynol oedd eiddo Iesu. Gwelir, o'r ochr arall, y rheswm nad yw'r Iesu, gyda'r fath safbwynt ysprydol a'i eiddo ef, yn athronydd damcaniaethol. Nid ymresymai o gwbl a'i ddysgyblion, ac ni wnai un ymdrech neillduol i ddenu eu sylw. Nid oes dim pellach oddiwrth y dduwinyddiaeth ysgolheigiol na'i Efengyl. Y mae golygiadau y tadau Groegaidd parthed yr hanfod dwyfol yn tarddu o ysbryd hollol wahanol. Y syniad uniongyrchol o Dduw fel Tad, dyna gyfanswm duwinyddiaeth Iesu. Y mae'n ddiau na ddaeth Iesu ar unwaith i ystyried ei hun yn fab i Dduw. Ond y mae'n debygol ei fod o'r cyntaf, yn ystyried ei berthynas â Duw, fel eiddo tad a mab. Dyna weithred fawr ei wreiddioldeb; yn hyn ni pherthyn o gwbl i'w genedl ei hun. Nid yw'r Iddew na'r Mahomedan erioed wedi dirnad melusder duwinyddiaeth cariad a gafodd fodolaeth gan Iesu. Nid Duw dialgar yw ei Dduw ef, a'n lladd pan y myno, a'n damnio pan y myno, a'n hachub pan y myno.

Duw Iesu yw ein Tad. Clywer ef pan y gwrandawer ar y llais distaw, fain oddimewn yn sibrwd y gair "Tad." Nid gormeswr yw Duw Iesu, sydd wedi gwneud Israel yn genedl ddewisedig, gan ei hamddiffyn rhag pawb, a'i chynorthwyo yn erbyn yr holl fyd. Duw dynoliaeth ydyw. Nid gwladgarwr oedd Iesu fel y Maccabeaid, neu ddwyflywydd fel Judas y Gaulonead. Ymgododd yn ddiofn uwch holl ragfarn ei genedl, a sefydlodd Dadolaeth gyffredinol Duw. Maentumiai y Gaulonead y dylid marw yn hytrach na rhoddi i neb ond Duw yr enw "meistr." Gadawodd Iesu yr enw hwn i'r neb a'i mynai, gan roddi i Dduw dynerach enw.

Tra'n talu i fawrion y ddaear, y rhai iddo ef a gynrychiolent allu, y parch nad yw mewn gwirionedd ond gwawdiaeth, sylfaenodd y cysur aruchel hwnw, sef cymundeb â'r Tad sydd gan bob un yn y nefoedd, gwir deyrnas nefoedd sydd gan bob un o fewn ei galon ei hunan.

Yr enw hwn o "deyrnas Dduw" neu "deyrnas nefoedd" oedd holl ymadrodd Iesu i fynegu'r chwyldroad a ddygodd i'r byd. Fel yr holl dermau perthynol i'r Messiah, o lyfr Daniel y daeth. Yn ol awdwr y llyfr rhyfeddol hwn, yr oedd pumed ymherodraeth i ddilyn y pedair ymherodraeth ddaearol oeddynt oll i syrthio i'r llwch, a'r pumed hono oedd i fod yn ymherodraeth o seintiau i bara yn dragywydd. Yr oedd teyrnas Dduw llyfr Daniel yn agored i gael ei hesbonio mewn llawer iawn o ffyrdd. Yn nyddiau olaf ei fywyd, credai Iesu y byddai iddi gael ei sylweddoli yn faterol drwy adnewyddiad sydyn o'r byd. Ond, yn ddiamheu, nid dyna ei feddwl ar y cyntaf. Y mae'r gwersi ardderchog a ddysgir ganddo ar sail y syniad o Dduwdod yn dra gwahanol i eiddo penboethiaid a gredent fod y byd ar ddod i derfyn, ac a baratoent eu hunain, drwy weddi ac ympryd, ar gyfer y trychineb dychmygol hwnw; gwersi ydynt i fyd sydd wedi byw, ac i ddaear sydd i fyw eto. "Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae" ebe ef wrth y rhai hyny a chwilient gyda chyfrwysder am arwyddion allanol. Nid oedd y syniad o ddyfodiad Dwyfol ond camgymeriad dros amser, fel cwmwl yn myned heibio, i'w anghofio yn ei farwolaeth. Yr Iesu a sylfaenodd wir Deyrnas Dduw, teyrnas y tyner a'r gostyngedig o galon, dyna Iesu dyddiau mebyd, dyddiau glan digymysg pan y clywai lais y Tad yn adseinio yn ei fynwes yn ei nodau puraf. Buan y cymerodd llais y saer ryw dynerwch rhyfeddol arno. Yr oedd rhyw swyn diderfyn yn ymbelydru o'i holl berson, a'r rhai a'i gwelsent ef cyn hyn, nis adnabyddent ef mwyach. Nid oedd ganddo eto ddysgyblion, ac nid oedd y rhai a gasglent o'i gylch eto wedi ymffurfio yn Sect nac ysgol; ond eisoes teimlid

fod yno yspryd newydd cyffredin iddynt oll, rhywbeth treiddiol a thyner, ei gymeriad cariadlawn, ac yn ddiau un o'r gwynebau rhyfeddol hyfryd hyny a welir weithiau yn mhlith y genedl Iddewig, oeddynt bethau anmhosibl i ddianc oddiwrthynt, ac a hudent oddiamgylch braidd bob person, yn enwedig pobl syml a charedig y parthau hyn.

Mewn gwirionedd, gellir dweyd ei fod wedi dwyn paradwys i'r ddaear, onibae fod syniadau y meistr ieuanc wedi codi yn mhell uwchlaw y syniadau cyffredin am ddaioni, yn wir yn mhell uwchlaw yr hyn a fedrodd yr hil ddynol ymgyfodi hyd yn hyn. Traethid am frawdoliaeth dynion, fel meibion Duw, a chanlyniadau moesol y syniad hwn, gyda'r deimlaeth fwyaf hudolus. Fel pob Rabbi neu athraw yn ei amser, ymhoffai Iesu mewn dywediadau byrion a fynegent lawer, weithiau yn anhawdd eu deongli, ac weithiau yn hynod yn eu ffurf—ond nis hoffai ymresymu yn sychlyd ac athronyddol. Cafodd rai o'i wirebau yn llyfrau yr Hen Destament, ereill oeddynt eiddo doethion mwy diweddar, yn enwedig Antigonus o Soco, Iesu mab Sirach, a Hilel, y rhai a ddaethant o fewn cyrhaedd iddo, nid drwy efrydiaeth ddysgedig ond fel diarhebion a adroddid yn aml. Yr oedd y Synagog yn gyfoethog mewn dywediadau hapus a grymus, y rhai a ffurfient fath o lenyddiaeth ddiarhebol llafar gwlad. Mabwysiadodd Iesu bron yr oll o'r addysg lafaredig hon; ond trwythodd hi ag ysbryd mwy aruchel. Tra'n myned yn uwch na'r dyledswyddau a osodwyd i lawr gan y Gyfraith, anelai at berffeithrwydd. Yr oedd holl rinweddau gostyngeiddrwydd, maddeuant, elusen, cariad ac hunanaberth, rhinweddau sydd a rheswm da dros eu galw yn rhinweddau Cristionogol, os wrth hyny y golygir y rhai a bregethid mewn gwirionedd gan Grist, eisoes yn bodoli megys mewn hâd, yn addysg lafaredig y wlad. Am gyfiawnder yr oedd yn foddlawn i adrodd y wireb: "Gwna i eraill megys ag y dymunit i eraill wneuthur i ti." Ond eto nid oedd yn hollol foddlawn ar yr hen ddywediad doeth, ond hunangar hwn. Elai i eithafion, gan ddweyd, "Pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddehau tro y llall iddo hefyd. Ac i'r neb a fynno ymgyfreithio a thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd." "Ac os dy lygad ddehau a'th rwystra, tyn ef allan, a thafl oddiwrthyt." "Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi ac a'ch erlidiant." "Na fernwch fel na'ch barner. Maddeuwch, a maddeuir i chwi. Tosturiwch megys ag y tosturia eich Tad nefol. Rhoddwch fwy na dderbyniwch." "Y neb a ostyngo ei hun a gyfodir, a'r neb a gyfodo ei hun a ostyngir." Am elusen, gweithredoedd da, tynerwch, hoffder heddwch, haelioni dihunan y galon, nid oedd ganddo fawr i'w ychwanegu at athrawiaeth y synagog. Ond rhodd ar yr athrawiaeth hon bwyslais llawn tynerwch a thlysni, gan osod newydd-deb ar wirebau oeddynt adnabyddus er's amser hir. Nid egwyddorion wedi eu mynegu gyda mwy neu lai o ragoriaeth ydyw moesoldeb. Y mae'r farddoniaeth sydd yn cylchynu addysg, ac yn peri dynion i'w charu, yn fwy na'r addysg ei hunan, hyny yw'r egwyddorion sychlyd a ystyrir yn addysg. Er ei bod yn mhell o fod yn wreiddiol ynddi ei hun, os dewisir dweyd y gellir ei hail gyfansoddi bron yn hollol o wirebau mwy hynafol, eto moesoldeb efengylaidd yw cread penaf y meddwl dynol, y gyfundrefn harddaf o reolau bywyd perffaith a glybuwyd am dani erioed. Ni lefarai yn erbyn cyfraith Moses; ond y mae'n eglur ei fod yn gweled mor annigonol oedd, ac ni fynai gelu'r ffaith. Tystiai yn barhaus ei fod yn angenrheidiol i wneud mwy nag a ofynid gan y doethion hynafol. Gomeddai bob gair caled, gwahardd-ai ysgar priodas a phob llw; yr oedd ei lais yn erbyn dial, condemniai logwyr arian, ac ystyria bob chwant

nwydus yn gymaint pechod a godineb. Dymunai faddeuant cyffredinol i bob trosedd. Ar yr un egwyddor beunydd y sylfaenai ei syniadau aruchel am gariad: "Fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, canys y mae efe yn peri i'w haul i godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Oblegid," meddai ef, "os cerwch y sawl a'ch caro, pa wobr fydd i chwi? oni wna y publicanod hefyd yr un peth? Ac os cyferchwch well i'ch brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur? onid yw y publicanod hefyd yn gwneuthur felly? Byddwch chwi gan hyny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith."

Addoliad pur, crefydd heb offeiriaid ac heb arferion allanol, yn gorffwys yn hollol ar deimladau'r galon, ar efelychiad o Dduw, ar berthynas uniongyrchol y gydwybod a'r Tad nefol, dyna ganlyniadau'r egwyddorion hyn. Ni wnaeth Iesu gilio cam rhag canlyniadau yr egwyddorion uchel hyn, canlyniadau a'i gwnaent ef, yn byw fel yr oedd yn mynwes Iddewaeth, yn gychwynydd yr hyn a ellid ei ystyried yn chwyldroad o'r fath fwyaf peryglus. Paham y rhaid cael cyfryngwr rhwng Duw a dynion? Gan nad yw Duw yn edrych ond ar y galon, o ba ddaioni oedd yr holl buredigaeth, a'r holl arferion na pherthynent ond yn unig i'r corff? Nid yw traddodiad hyd yn oed, er mor gysegredig yn ngolwg yr Iddew, yn ddim i'w gymharu a theimladaeth bur y galon. Yr oedd yn atgas ganddo ef ragrith y Phariseaid, y rhai, wrth weddio, a droent eu wynebau i gael gweled os y sylwid arnynt, a wnaent elusen gyda llawer o dwrw, ac a osodent arwyddion ar eu gwisgoedd er mwyn dangos i ddynion eu bod yn dduwiol, a llawer iawn o nodau ffug-ddefosiynol o'r fath. "Y maent yn derbyn eu gwobr," meddai ef. "Eithr ti, pan wnelych elusen, na wyped dy law aswy pa beth a wna dy law ddehau, fel y byddo dy elusen yn y dirgel, a'th Dad, yr hwn a wel yn y dirgel, efe a dâl i ti yn yr amlwg. A phan weddiech, na fydd fel y rhagrithwyr, canys hwy a garant weddio yn sefyll yn y synagogau, ac yn nghonglau'r heolydd, fel yr ymddangosont i ddynion. Yn wir, meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr. Ond tydi, pan weddiech, dos i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws, gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wel yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg. A phan weddioch na fyddwch siaradus fel y cenhedloedd, canys y maent yn tybied y cant eu gwrandaw am eu haml eiriau. Na fyddwch gan hyny debyg iddynt hwy, canys gwyr eich Tad pa bethau sydd arnoch eu heisiau cyn gofyn o honoch ganddo." Ni ddangosai unrhyw arwyddion allanol o'i dueddiadau meudwyaidd, boddlonai ar weddio, neu yn hytrach fyfyrio ar y mynyddoedd neu mewn lleoedd anhygyrch, mewn manau o'r fath ag y mae dyn wedi dewis chwilio Duw bob amser. Y syniad uchel hwn am berthynas dyn a Duw, syniad ag y mae mor ychydig o eneidiau, hyd yn oed ar ol ei amser ef, wedi bod yn alluog i'w gyrhaedd, a osodwyd ganddo mewn un weddi fer, yr hwn a ddysgwyd ganddo wedi hyn i'w ddisgyblion: "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag Drwg."*

Rhoddai bwys neillduol ar y ffaith fod y Tad nefol yn gwybod yn well na ni beth sydd arnom ei eisiau, a'n bod bron yn taflu dirmyg arno drwy ofyn ganddo unrhyw beth penodol. Nid oedd Iesu yn gwneud dim ond dangos canlyniadau yr egwyddorion

---

*Y Drwg, hyny yw, y Diafol, neu yr ysbryd drwg (*genius of evil*), yn ol syniadau yr oes.

mawrion oeddynt eisoes wedi eu sylfaenu gan yr Iddewon, ond a ddiystyrid yn fwy-fwy gan ddosbarth swyddogol y genedl. "Gan hyny, os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn: gâd yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf cymoder di â'th frawd, ac yna tyred, ac offrwm dy rodd." Y proffwydi Iddewig, ac Esaiah yn benaf yn mysg yr hynafiaid, oeddynt, yn rhinwedd eu casineb at offeiriadaeth, wedi gweled gwir natur yr addoliad dyledus gan ddyn i Dduw. "Beth yw lluosogrwydd eich aberthau i mi? medd yr Arglwydd: llawn ydwyf o boeth aberthau hyrddod, ac o frasder anifeiliaid breision: gwaed bustych hefyd, ac ŵyn, a bychod nid ymhyfrydais ynddynt; arogldarth sydd ffiaidd genyf: canys eich dwylaw sydd lawn o waed. Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd: dysgwch wneuthur daioni; ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, ac yna deuwch." Mewn amseroedd diweddarach bu agos i eraill gyrhaedd i'r un syniadau, canys tystiai Simeon y Cyfiawn, a Iesu fab Sirach, a Hilel, mai yr un oedd Cyfiawnder a'r Gyfraith.

Philo hefyd, yn myd Iddewig yr Aipht, tua'r un amser a Iesu, a gyrhaeddodd syniadau uchel am sancteiddrwydd buchedd, canlyniadau y rhai oedd ychydig ofal am ddefodau allanol y Gyfraith. Shemaia hefyd ac Abtalim a ddangosasant lawer o ryddid mewn perthynas i gydwybod dyn ac allanolion crefydd. Cyn hir gosododd Rabbi Johanan weithredoedd o drugaredd uwchlaw efrydu'r Gyfraith. Ond Iesu ei hun, er hyny, a draethodd y mater mewn modd effeithiol. Ni fu neb erioed yn llai o offeiriad na Iesu; ni fu neb erioed yn fwy gelyniaethus i'r ffurfiau sydd yn mogi crefydd dan yr esgusawd o'i hamddiffyn. Yn hyn o beth, yr ydym oll yn ddisgyblion iddo, ac "yn parhau ei waith"; yn hyn o beth y mae wedi rhoddi i lawr sylfaen tragwyddol gwir grefydd; ac os crefydd yw peth mwyaf pwysig dynoliaeth, yn hyn y mae'n teilyngu'r anrhydedd o'r radd ddwyfol sydd eisoes wedi ei rhoddi iddo gan y byd. Daeth syniad hollol newydd i fodolaeth gydag ef, y syniad am addoliad wedi ei sylfaenu yn hollol ar burdeb calon ac ar frawdoliaeth ddynol—meddwl mor aruchel fel nas gallasai yr Eglwys Gristionogol, bron o angenrheidrwydd, ymgyrhaedd ato, a syniad nas gellir ei ddilyn yn ymarferol, ond gan ychydig iawn o bobl, hyd yn oed yn ein dyddiau ni.

Yr oedd cydymdeimladaeth dyner â natur bob amser yn barod i gyflwyno ffigyrau iddo yn ei ymadroddion grymus. Weithiau yr oedd yr hyn a ellir alw yn arabedd yn addurno ei wirebau; bryd arall yr oedd eu ffurf yn ddyledus i'r defnydd hapus a wnai o ddiarhebion llafar gwlad. "Pa fodd y dywedi wrth dy frawd, Gâd imi fwrw allan y brycheuyn o'th lygad: ac wele drawst yn dy lygad dy hun? O ragrithiwr, bwrw allan yn gyntaf y trawst o'th lygad dy hun; ac yna y gweli yn eglur fwrw y brycheuyn allan o lygad dy frawd." Yr oedd y gwersi hyn, oeddynt wedi bod yn nghudd yn hir yn mynwes yr athraw ieuanc, wedi dwyn oddiamgylch iddo rai disgyblion eisoes. Yr oedd yspryd yr oes yn ffafriol i eglwysi bychain: oes yr Esseniaid a'r Therapeutiaid (gwyrth-wneuthurwyr) ydoedd hi. Tarddai Rabbiniaid i fodolaeth ar bob llaw, pob un a'i athrawiaeth ei hun, megys Shemaia, Abtalion, Hilel, Shammai, Judas y Gaulonead, Gamaliel, ac eraill, gwirebau y rhai a ffurfiant y Talmud. Nid ysgrifenid llawer; nid oedd y dysgawdwyr Iddewig yn gwneuthur llyfrau; cyflwynid pobpeth drwy ymgomiadau a gwersi cyhoeddus, i'r rhai y gosodid ffurf oeddynt hawdd i'w cofio. Nid oedd y dydd y dechreuodd y saer ieuanc o Nazareth ddysgu ei wersi yn gyhoeddus felly yn ddigwyddiad o bwys, canys yr oedd llawer o honynt eisoes yn hollol adnabyddus, ond yn rhinwedd ei bersonoliaeth ef yr oeddynt, er hyn oll, i roddi ail-enedigaeth i'r byd.

Nid oedd ef ond un Rabbi yn rhagor (y mwyaf swynol o'r oll, mae'n wir), ond o'i gylch ymgasglai bechgyn ieuainc awyddus i wrando a llawn nwyd i archwilio'r anhysbys. Nid ar unwaith yr enillir sylw dynion. Nid oedd eto Gristionogion yn bod ; ond, er hyny, yr oedd gwir Gristionogaeth wedi ei sylfaenu; ac ni fu erioed yn fwy perffaith na'r dyddiau cyntaf hyn. Ni ychwanegodd Iesu fawr o bwys ati ar ol hyn. Mewn un ffordd drygodd Gristionogaeth, canys rhaid gwneud aberth er mwyn llwyddiant unrhyw syniad ; ni ddêl neb allan yn ddilychwin o frwydr bywyd. Nid yw canfod y da yn ddigon ; rhaid peri iddo lwyddo yn mysg dynion. Er mwyn hyn, rhaid wrth lwybrau llai perffaith a phur. Yn wir, pe cyfyngid yr efengyl i rai penodau yn Matthew a Luc, buasai yn fwy perffaith ac yn llai agored erbyn hyn i feirniadaeth ; ond heb wyrthiau a fuasai wedi dychwelyd y byd ? Pe buasai Iesu wedi marw yr adeg hon o'i oes, ni fuasai yr un ddalen yn ei fywyd i beri clwyf i mi ; ond, er yn fwy yn ngolwg Duw, buasai wedi ei anghofio gan ddynion ; buasai wedi ei golli yn nhyrfa yr eneidiau dinôd, er y goreu o honynt oll ; ni fuasai y gwirionedd wedi ei daenu, ac ni fuasai'r byd wedi derbyn y fraint ddirfawr o'r aruchelledd moesol a gafodd gan ei Dad. Yr oedd Iesu fab Sirach, a Hilel wedi traethu gwirioneddau bron mor ardderchog a'i eiddo ef. Ond ni chyfrifir Hilel byth yn wir sylfaenydd Cristionogaeth. *Mewn moesoldeb, fel mewn celfyddyd, nid yw dweyd yn ddim, gwneud yw'r cyfan.*

Ychydig o bwys yw'r drychfeddwl a lecha o fewn un o ddarluniau Raphael ; y darlun ei hun sydd o bwys. Felly hefyd mewn moeseg ; nid yw gwirionedd o ddim gwerth nes myned tu hwnt i deimladaeth, ac nid yw yn cyrhaedd eithafbwynt ei werth nes ei sylweddoli yn myd gweithredoedd. Y mae dynion o foesau cyffredin iawn wedi ysgrifenu gwirebau rhagorol. Y mae llawer o ddynion rhinweddol hefyd wedi bodoli nas gwnaethant ddim i barhau traddodiad rhinwedd ar y ddaear. I'r hwn sydd wedi bod yn nerthol mewn gair ac mewn gweithred y mae'r llawryf, yr hwn a deimlodd y da ; ac er colli o hono ei waed ei hun, a arweiniodd rinwedd i fuddugoliaeth. Yn y modd dyblyg hwn, y mae Iesu'n aros yn ddihafal ; erys ei glod ac adnewyddir ei ogoniant am byth.

YMSON Y MYFYRIWR.

Bu adeg yn fy mywyd pan na fedrwn ddweyd yn gydwybodol fy mod yn credu mewn Duw. Daw adegau o'r fath i ran pob dyn a rydd ei feddwl i fyfyrio o ddifrif ar bynciau o'r natur hyn. Nid pell wyf o gredu fod tipyn o anffyddiaeth neu ddiffyg crediniaeth mewn Duw yn angenrheidiol cyn y deuir i feddiant o grediniaeth drwyadl ynddo. Y mae y fath beth a chred arwynebol mewn Duw. Credir ynddo gan ddynion yn fynych, nid oherwydd eu bod wedi ymgodymu â'r pwnc, ac wedi dod allan yn fuddugoliaethus o'r ornest, ond am ryw reswm arall, megis, am y rheswm fod y mwyafrif yn credu ynddo. Cred arwynebol yw hon fynychaf, ac nid yw o nemawr gwerth. Nid am gred o'r natur hyn yr ysgrifenaf yn awr, ond am gred wirioneddol, drwyadl — un sydd wedi cymeryd

meddiant o'r holl galon. Ni ddaw'r gred hon i feddiant dyn yn rhwydd. Rhaid myned trwy'r tywyllwch cyn y deuir o hyd iddi—trwy dywyllwch anffyddiaeth yn fynych. Ac ni raid i un dyn ieuanc gywilyddio arddel ei anffyddiaeth pan na fedr weled ei ffordd yn eglur tuag at y goleuni a ddyry ffydd wirioneddol i bob dyn a'i medd. Mae'r cywilydd, yn hytrach, yn perthyn i'r hwn a foddlona aros yn ei anffyddiaeth: neu, i'r hwn a foddlona aros yn ei anffyddiaeth heb wneud un ymgais ddidwyll—ymgais ddidwyll, hyd yn oed os na ddaw buddugoliaeth i'w ran — i ddod i feddiant o ffydd neu grediniaeth mewn Duw. Oherwydd, nid cyflwr dymunol yw cyflwr o anffyddiaeth. Dyna'm profiad i o leiaf. Nid oes dim yn fwy torcalonus na'r syniad nad oes yn yr holl fydysawd un gallu perffaith i'r hwn y gellir priodoli pob peth. Mae pob amcan ardderchog i fywyd yn diflanu; nid yw'r bydysawd amgen nag uffern ddi-drefn, yn yr hon y mae mil a mwy o nerthoedd yn gweithio heb neb yn eu cyfarwyddo, yn gweithio yn hollol anibynol ar eu gilydd, heb un cysylltiad â'u gilydd, a'r oll yn arwain i ddinystr yn y diwedd. Dyna'r unig olwg posibl ar bethau, fel yr ymddengys i mi, yn absenoldeb crediniaeth mewn Duw. Esmwythyd i'm meddwl i oedd cael ymwared o'r fath gyflwr anymunol. Ac am yr ymwared dyledus oeddwn i weithiau Theodore Parker yn fwy nag i neb arall—y dyn a ystyrid gan grefyddwyr ei oes yn anffyddiwr, yn gymhorth i'm harwain o ffosydd ansicr anffyddiaeth i feddiant o ffydd mewn Duw, sydd wedi bod, byth oddiar hyny, yn ffynhonell amhrisiadwy o gysur ac o nerth i mi. Byth er yr adeg y deuais allan o'r cyflwr hwn, mae pob llyfr a broffesa ymdrin â'r pwnc o fodolaeth Duw yn meddu swyn i mi sydd yn ei gwneud bron yn amhosibl gwrthsefyll y demtasiwn i'w brynu. Fe'm meddienir gan chwilfrydedd i wybod rhesymau'r awdwr dros gredu (neu, os mai'r ochr nacaol gymerir ganddo, dros wrthod credu) mewn Duw. Dyna'm cymhellodd i brynu'r llyfryn y cyfeiriais ato yn yr "ymson" diweddaf. Nid oedd yn enw'r awdwr yr un atdyniad i mi, gan nad oeddwn wedi ei weled erioed o'r blaen. Ond yr oedd y ffaith fod cwmni enwog o gyhoeddwyr llyfrau wedi dwyn y llyfr allan fel un o gyfres o lyfrau poblogaidd i'r lluaws yn dweyd rhywbeth yn ei ffafr ar y pen hwn hefyd. Nid tebyg yr anturient ddwyn allan lyfr mewn cyfres o'r natur hyn gan awdwr dinod ac anghymwys. Ar ol ei ddarllen, un meddwl arbenig ddygwyd adref ataf oedd hwn—fod tebygolrwydd rhyfeddol yn ffynu rhwng pob ymdriniaeth o'r pwnc hwn. Os darllenir un llyfr da arno gan awdwr cymhwys, mae bron yn wastraff amser i ddarllen rhagor, gan, yn debygol, na fyddid wrth wneud hyny ond yn troedio'r un llwybrau. Medr ambell un, mae'n wir, wisgo ei fater mewn iaith dlysach a mwy dealladwy nag eraill; hefyd, medr ambell un osod ei feddyliau ger bron y darllenydd mewn ffurf mwy argyhoeddiadol nag eraill. Ond, er hyn, mae'r sylwedd yn aros yr un. Beth am y rhesymau ddyry ein hawdwr dros ei grediniaeth mewn Duw? I'r gofyniad, "A oes Duw?"—yr hwn a eilw efe yn ofyniad y gofyniadau, am y rheswm fod crefydd a phob peth cysylltiedig â hi yn ymddibynu ar yr ateb roddir iddo—dyry ateb cadarnhaol—*fod Duw*. A yn mlaen i brofi ei haeriad yn y dull canlynol: fod bodolaeth Duw yn cael ei ddatgan neu ei brofi (1) gan fodolaeth y cyfanfyd, (2) gan yr arwyddion o drefn welir yn mhob cyfeiriad—yn y byd materol a moesol, (3) gan hanes dyn a hanes cenhedloedd, a (4) gan brofiad pob crediniwr. Mewn erthygl o'r fath ag yw hon, ni ellir rhoddi hyd yn oed fraslun amherffaith o'r dull y gesyd yr awdwr ger bron ei ddarllenydd ei resymau dros ei amrywiol gasgliadau. Ac nid hyn, ychwaith, yw fy amcan; ond, yn hytrach, rhoi mynegiad geiriol o'r argraph wnawd ar fy meddwl wrth ei ddarllen. Ar ol ei ddarllen, fe'm meddienid gan feddwl o'r natur a ganlyn: ei bod yn hawddach profi

fod Duw yn bodoli, na phrofi *nad yw yn bodoli*. Defnyddiaf y gair profi yn y cysylltiad hwn, nid yn hollol yn yr ystyr y defnyddir ef (dyweder) gan Euclid, ond yn hytrach yn yr ystyr o arddangosiad o resymau dros gredu mewn Duw a foddlona feddwl y darllenydd deallgar. Mae prawf, yn yr ystyr gyflawn a enwyd, yn amhosibl mewn perthynas i'r pwnc hwn. Yr wyf, fel y sylwais, wedi darllen llawer ar y pwnc o fodolaeth Duw—yn ffafr ac yn erbyn. Wrth ddarllen llyfrau gwrthwynebol i'r gred, nis gallwn gadw i ffwrdd y teimlad fod yr awdwyr yn barhaus yn nofio yn erbyn rhediad yr afon. Ac yn wastad, ar derfyn darlleniad o'r llyfrau hyn, teimlwn awydd i ofyn : beth yw dyben yr ymgais ddewr — rhaid ei galw yn ymgais ddewr, pan y gwelwn ei bod yn ymdrech yn erbyn y fath anhawsderau—i brofi nad oes Duw? A fyddai dynolryw yn well hebddi na chyda hi? A fyddai yn y syniad nad oes un gallu yn y bydysawd y medr dyn gredu ynddo fel achosydd pob peth, fel bôd y mae dyn yn gyfrifol iddo, fel Tad sydd yn caru dyn â chariad perffaith — a fyddai mewn syniad o'r fath hyn gymhelliad cryfach i'r ymdrech am y bywyd ardderchocach sydd yn bosibl i bob dyn nag sydd yn y syniad ei fod yn bodoli? Parthed yr ateb i'r gofyniad hwn, ni fynwesaf yr un amheuaeth ; credaf y byddai anghrediniaeth cyffredinol yn modolaeth Duw yn alanastra o flaen yr hwn y syrthiai pob galanastra arall i'r cysgod. Mae'r gred mewn Duw yn fynych yn wan ; ac mewn canlyniad mae ei dylanwad —ataliol a chymhelliadol—yn eiddil. Ond tu cefn—yn ysgogydd—i bob ymdrech ardderchog o ei ldo dyn y mae, fel rheol, y gred mewn Duw—yr argyhoeddiad dwfn ei fod yn bodoli. Ond ni chredaf fod un perygl i'r galanastra hwn i orddiwes yr hil ddynol. Mae'r hyn ellir ei alw yn gyndynrwydd (*persistency*) y gred mewn Duw yn gwneud hyn yn amhosibl. Gwthia ei hun i sylw dyn ar ei waethaf. Mae hyd yn oed y rhai a lafuriant i ddiddymu'r gred yn methu ymddihatru o honi yn llwyr. Mae'r ymgais i'w diddymu ynddo ei hun yn brawf o hyn. Mae hyd yn oed y rhai mwyaf anystyriol yn gorfod rhoi lloches yn achlysurol i'r ymdeimlad fod Duw yn bodoli, yr hwn ymdeimlad a gyffroir yn fynych gan yr amrywiol brofiadau yr ä dyn trwyddynt ; a cheidw'r ymdeimlad hwn yn fyw—neu, efallai, yn adfyw—yn ei fynwes y meddwl nad bôd hollol anghyfrifol yw dyn, ond cyfrifol yn hytrach. Mae'n anhawdd dod o hyd i ddyn o gyflwr meddyliol ac ysprydol mor isel, nad oes rhywbeth yn ei fynwes yn peri iddo i ddweyd yn awr ac yn y man—*fod Duw yn bodoli.*

MYFYRIWR.

CYFARFODYDD SEFYDLU Y PARCH. J. PARK DAVIES, B.A., B.D.

O un i un llenwir ein pwlpudau gweigion yn Neheudir Cymru yn lled gyflym. Nid oes amser maith er pan gafwyd y pleser o groesawu y Parchn. Simon Jones i Abertawe, Alva Richards i Gellionen a Trebanos, Melchizedek Evans i Highland Place, Aberdar, F. Blount-Mott i Gaerdydd, Arthur Golland i Gasnewydd, a Hugh Robinson i'r Wîg, ac ar y 26ain o fis Mawrth diweddaf rhoddwyd derbyniad i'r Parch. J.

Park Davies, B.A., B.D., Llandyssul, fel gweinidog yn Pontypridd. Felly nid oes yn aros yn amddifad ar hyn o bryd ond pedair eglwys yn unig, sef Merthyr, Cwmbach, Clydach Vale, a Pentre, a gallwn ddweyd fod gobaith cryf y gwelir o leiaf ddau neu dri o'r lleoedd hyn yn cael eu gosod o dan ofal rhywun, a hyny heb fod yn faith. Os yw yr hen gewri yn cwympo, mae'r faner o hyd yn chwifio.

Yr oedd Mr. Park Davies, ar ol gorphen ei yrfa golegawl yn Rhydychen, wedi myned am flwyddyn i Harvard, Unol Dalaethau yr Amerig. Dychwelodd yn gynar yn yr haf i'w wlad ei hun, ac, fel Moses, dewisodd yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw na chael mwyniant dros amser yn nghanol trysorau yr Aipht—aeth bron yn ei gyfer i un o gymoedd mwyaf myglyd Morganwg er ceisio cynorthwyo ychydig o'r manau hyny oeddynt wedi eu gadael yn unig wrthynt eu hunain. Pontypridd oedd prif ganolfan ei weithgarwch ; ac ar ol bod yn llafurio yno am ychydig fisoedd, rhoddodd y gynulleidfa wahoddiad iddo ddyfod yn weinidog arnynt. Yr oedd y derbyniad mor galonog a'r cynyg ; a gwelwyd Mr. Davies yn dechreu ar ei waith fel bugail ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd. Gohiriwyd y cyfarfodydd ordeinio hyd wyliau y Pasc, er sicrhau gwasanaeth y gwr galluog ac athrylithgar Dr. J. Estlin Carpenter, prifathraw Coleg Manceinion, yn Rhydychen, lle bu Mr. Davies yn myfyrio am dair blynedd. Ar y dydd apwyntiedig daeth torf luosog yn nghyd, yr adeilad newydd tlws yn orlawn y prydnawn a'r hwyr, a chafwyd hin nas gellid dymuno ei gwell. Pe baem yn tueddu i fod yn ofergoelus, buasem yn sicr o fod yn barod i gredu fod y Nef yn gwenu ei chymeradwyaeth arnom. Rhoddwn yr ystyr goreu i bob peth—mae yn iechyd i'r enaid ac yn ysgogiad i'r galon.

Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn trwy ganu emyn, ac yna arweiniwyd mewn gweddi gan y Parch. Simon Jones, Abertawe. Ar ol myned drwy y rhan ddefosiynol, galwodd y cadeirydd (Mr. John Lewis, Top-hill) ar Dr. Carpenter i roddi ei anerchiad. Yr oedd yr hyn ddywedodd mor ardderchog mewn yspryd, iaith a sylwedd, fel y ceisiaf roddi cyfieithad o rai brawddegau mewn man arall. Nid yn y geiriau, fodd bynag, yr oedd yr effaith yn gynwysedig yn gymaint ag yn ei ddull a'i wedd. Gwnaeth argraff ryfeddol ar bawb oedd yn bresenol, a chredaf iddo adael dylanwad arosol ar ei ol. Y nesaf i siarad oedd y Cynghorwr James Roberts, Y.H. (Presbyteriad), yr hwn ddywedodd ei fod o galon yn rhoddi croesaw i'r gweinidog newydd i'r lle. Er eu bod yn perthyn i wahanol enwadau, credai fod yna ddigon o dir cyffredin ar ba un y gallent sefyll a chydlafurio. Undodiaid oedd rhai o'i gyfeillion mwyaf mynwesol, a theimlai fod Cymru o dan rwymedigaeth neillduol iddynt fel arweinwyr addysg. Datganodd ei awydd i longyfarch ei gyfaill Mr. Lewis N. Williams, Aberdar (yr hwn oedd yn bresenol) ar ei ddyrchafiad diweddar i'r Fainc Ynadol.

Cafwyd ychydig eiriau pwrpasol ar ol hyn gan yr Henadur W. A. Davies, yr hwn a ddywedodd ei fod yntau, er yn perthyn i wahanol enwad, yn estyn gwahoddiad i unrhyw un oedd yn barod i sefyll dros y gwir. Hyderai y gwnai holl eglwysi y lle edrych arno fel ychwanegiad at fyddin sydd yn ymladd dros burdeb a gwirionedd.

Siaradwyd ar ei ol gan y Cynghorwr William Jones, Y.H., a dywedodd ei fod mewn cydymdeimlad dwfn â'r Undodiaid, a dymunai gydlawenhau â'r eglwys ar yr achlysur presenol. Rhoddodd ganmoliaeth uchel iawn i Dr. Griffiths, a hyderai y byddai i'r gweinidog newydd rodio ar hyd yr un llwybrau.

Croesawyd Mr. Davies ar ran yr eglwys mewn modd deheuig iawn gan y cadeirydd, ac ar ran yr Ysgol Sul gan Mrs. Bowett.

Cafwyd ychydig eiriau yn nesaf gan y Parch. Simon Jones, a dilynwyd ef gan Mr. H. Woolcott Thompson,

Caerdydd. Galwyd ar ol hyn ar y Parch. J. Edgar Williams, gweinidog yr Eglwys Gynulleidfaol Seisnig. Yr oedd yn bleser ganddo fod yn bresenol yn y cyfarfod am fod dyfodiad pregethwr Undodaidd bob amser yn golygu adgyfnerthiad i achos purdeb a chynydd. Cydnabyddodd ei rwymedigaeth i ddysgawdwyr fel James Martineau, John Hamilton Thom, a Dr. J. Estlin Carpenter. Yr oedd gweithiau y rhai yma wedi bod yn ymborth i'w yspryd a'i enaid.

Cafwyd areithiau pellach gan y Parch. Melchizedek Evans, Aberdar; Mr. Lewis N. Williams, Y.H., Aberdar; Parch. R. J. Jones, M.A., Hen Dy Cwrdd; a'r Parch. J. Ewart Jenkins, Padiham. Gwelwyd hefyd yn bresenol y Parchn. W. J. Phillips, Nottage, a J. P. Kane, Dowlais; Mrs. Hathren Davies, Cefncoedcymer; Mrs. Morgan, Ynysybwl, ac eraill rhy luosog i'w henwi.

Darllenwyd amryw lythyrau oddiwrth gyfeillion oeddynt yn absenol, ac yn eu plith un oddiwrth y Parch. J. Dyfnallt Owen (Sardis), yr hwn oedd wedi bwriadu siarad onibai fod anhwyldeb wedi ei rwystro i fod yn bresenol.

Terfynwyd y cyfarfod trwy ganu emyn. Yna ymneillduwyd i fan lle 'roedd digon a gweddill o fwyd wedi ei barotoi gan y gynulleidfa. Ar ol gorphen yr oedd bron yn bryd i ddychwelyd i'r capel ar gyfer gwasanaeth yr hwyr. Yr oedd yr adeilad yn orlawn eto, a da oedd genym weled yn bresenol gynifer o aelodau y *Progressive Theology League* sydd newydd ei sefydlu yn Nhreorchy. Aeth Dr. Carpenter drwy y gwasanaeth i gyd, a phregethodd oddiar y geiriau welir yn Matthew vi. 33—"Eithr yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg." Cafwyd pregeth nerthol a gwrandawiad astud o'r dechreu hyd y diwedd. Dywedai fod y syniad o deyrnas Dduw yn myned yn ol i amser boreu iawn, ac yn newid o oes i oes. I Ioan Fedyddiwr a Iesu golygai i fesur ddau beth gwahanol. I ni heddyw golyga yn ei hagwedd oreu lywodraeth cariad, purdeb a thangnefedd. Wrth edrych yn ol dros bythefnos o amser, gallwn feddwl mai anhawdd fuasai cael gwell cyfarfodydd. Hyderwn y byddant yn foddion i ddyrchafu safle Undodiaeth yn y lle ac i enyn rhagor o ffydd a brwdfrydedd yn ein pobl ni ein hunain. Nid ydym wedi gorphen ein cenadwri eto. Gosodwn ein harfau i lawr pan fyddo anghyfiawnder, anwybodaeth, culni, rhagfarn ac amharch wedi llwyr ddiflanu oddiar wyneb y ddaear. Hyd hyny gweithiwn, a thrwy weithio ni a orchfygwn.

DR. CARPENTER AR Y WEINIDOGAETH.

Yn y pedwerydd efengyl ceir y geiriau godidog a ganlyn: "Myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach." Dyna oedd swm a sylwedd gweinidogaeth Iesu, a dyna hefyd ddylasai fod swm a sylwedd gwaith pob gweinidog heddyw. Nid syniadau, nid duwinyddiaeth, nac hyd yn oed eglwysi yw y prif beth, ond bywyd; ac mae yn ofynol fod yr hwn sydd yn gweinyddu bywyd yn yr eglwys fod yn ffynhonell o hono ynddo ei hun. Rhaid i'r hwn sydd a'i waith i hyfforddi a chynorthwyo eraill, nid yn unig wrth barotoad athrofaol, ond ymroddiad beunyddiol mewn bywyd. Amgylchynir pawb o honom gan fyrdd o ddirgelion. Beth yw ystyr ein bodolaeth ar y ddaear? Beth sydd gan oruchwylion mân ein cylch cyfyngedig i wneud â datblygiad yr enaid oddifewn? Beth yw dyn i feddwl am dano yn ngwyneb yr ysplander dwyfol o'r eangder diderfyn nas gall y meddwl amgyffred ei gwmpawd? Rhaid i'r gweinidog fod a'r allwedd yn ei law i ddadrys y cyfryw gyfrinion cudd. Rhaid iddo gadw ei lygad yn glir ac agored i ganfod pob goleuni newydd a dangos fod pob dyn, nad pa mor ddinod y

byddo, yn offeryn yn llaw Duw i ddwyn ei amcanion tragwyddol i ben a sefydlu teyrnas nefoedd ar wyneb y ddaear.

TITUS TITUS, PENCADER.

Byddaf yn awr ac yn y man pan byddo amser yn caniatau yn talu ymweliad a mynwent henafol Llanfihangel-ar-arth i rodio yn mysg y beddau a darllen yr ysgrifau ar y meini coffadwriaethol frithant y fangre gysegredig. Mae'r ymweliadau hyn o fy eiddo wedi bod yn fwy aml y tair blynedd diweddaf nag erioed o'r blaen am mai yma y gorwedd gweddillion marwol yr hon a brofodd ei hun yn ymgeledd gymhwys i mi am ddwy flynedd a deugain. Wrth sylwi yn fanwl ar y meini coffa darfu i mi yn ddamweiniol y tro diweddaf ddod ar draws maen coffadwriaethol y gwron enwog y bwriadaf ddweyd ychydig am dano yn yr ysgrif fer hon.

Adnabyddid ef wrth yr enw Titus Titus, Saer, Pencader. Bu farw Ionawr 8fed, 1866, yn 57 mlwydd oed, gan adael ar ei ol weddw, un mab ac un ferch. Bu ei weddw farw ychydig flynyddau yn ol yn 83 mlwydd oed. Y mae y mab Rees yn byw yn America a'r ferch yn preswylio yn y ty y bu ef farw ynddo.

Hanai o deulu parchus a chlywais lawer tro fod ei rieni yn meddu cynheddfau cryfion ac yn hynod am eu synwyr cyffredin.

Nid saer cyffredin oedd Titus, ond pen saer, a dywedir fod ei fab Rees Titus yn rhagori ar ei dad ac wedi codi i safle uchel ac anrhydeddus yn America mewn cysylltiad a rheilffyrdd.

Ond y mae a fynom y tro hwn a Titus Titus fel un gafodd ei dori allan o Eglwys Annibynol Pencader 60 mlynedd yn ol, am ei fod yn beiddio dal golygiadau Undodaidd ar bynciau duwinyddol, ac am ei fod yn yr Ysgol Sul a manau eraill yn gwneud yn hyspys ei gredo ac yn ei hamddiffyn. Diarddelwyd ef a brawd arall o'r enw Daniel Stephens, Lodge, Gwarmacwydd, yr un dydd mewn cwrdd eglwys yn Mhencader. Yr oedd Daniel Stephens yn nai, fab chwaer, i Dr. Phillips, Neuaddlwyd. Ystyrid hen eglwys enwog Pencader yr amser y cyfeirir ato y lluosocaf mewn aelodau yn yr holl ardaloedd, a pherthynai iddi gewri mewn duwinyddiaeth, a'r oll o honynt gydag ychydig eithriadau wedi cymeryd i fewn yn helaeth olygiadau John Calvin. Pe buasai y ddau frawd esgymunwyd mor ddiseremoni 60 mlynedd yn ol o'r eglwys hon byw yn awr ac yn aelodau o honi nid ydym yn meddwl yr aflonyddid arnynt o gwbl am eu credo grefyddol.

Wedi gadael ysgol enwog Pontsian diwedd blwyddyn 1862 cefais fy appwyntio yn ysgolfeistr Pencader yr ail waith lle y treuliais 12 mlynedd gyda chryn lwyddiant fel athraw; symudais yn 1874 wedi llwyddo am *Certificate* i gymeryd gofal ysgol Llanfihangel-ar-arth, am fod ysgoldy Pencader wedi ei gondemnio gan y Bwrdd Addysg. Daeth Titus Titus a minau yn fuan yn gyfeillion gwresog. Buom yn byw am beth amser yn gymydogion agos a bu aml ddadl frwd rhyngom ar bynciau y ffydd. Cytunem yn fynych i anghytuno er mwyn dadl. Efe oedd y trechaf o ddigon, ond ystyriwn fy hun er yn orchfygedig, yn enillwr bob tro wedi dadl.

Anaml y byddai y blynyddau diweddaf y bu fyw yn mynychu un

lle o addoliad—elai weithiau i Pantdefaid a Llwynrhydowen. Yr oedd yn edmygwr mawr o Gwilym Marles fel dyn ac fel pregethwr, ac efe fu yn gweinyddu yn ei angladd.

Yr wyf yn cofio i mi ofyn iddo unwaith ddod gyda fi i wrandaw pregeth ar foreu Sul yn Mhencader. Ei atebiad oedd : " Gyfaill, a ydych yn meddwl fy mod mor ffol a phresenoli fy hun yn y capel foreu Sul i gael fy *namnio* wedi bod yn gweithio yn galed drwy'r wythnos o foreu Llun hyd nos Sadwrn." Dywedais wrtho fod ei ateb rhyfedd wedi dwyn i'm cof frawddeg hynod roddwyd o'm blaen unwaith fel *headline* mewn copi gan bregethwr pan oeddwn yn lasgrwt yn yr ysgol. Dyma'r llinell hyd y gallaf gofio : " *Unitarianism is a damned doctrine.*" Chwarddodd y brawd yn iachus, a dywedodd ei fod yn barnu fod y pregethwr ar y pryd yn ofni fod gogwyddiad fy meddwl yn galw am *check* er ei gadw ar *rails* uniongred-aeth. Da yr wyf yn cofio yr haf diweddaf y bu Titus Titus byw, iddo ef a minau fynd yr un wythnos i Ceinewydd, yr oedd ef yn wael iawn ei iechyd ar y pryd, ac nid oeddwn inau yn gryf chwaith. Dywedodd wrthyf un dydd pan yn rhodio ar y traeth ei fod wedi ffarwelio a bywyd ac nad oedd dim i wneud ond ymostwng i'r ewyllys ddwyfol. Ni fu byw ond rhyw bedwar mis wedi mynd adref o'r môr. Bum yn rhoi tro am dano droion, ac nid â y tro diweddaf y gwelais ef ychydig ddyddiau cyn mynd o hono i'r afon byth o'm cof. Gwyddwn yn dda ei fod yn falch fy mod wedi dod. Gofynais iddo a oedd arno ofn marw. Gwelais ei lygaid ar unwaith yn disgleirio a'i wyneb yn gwisgo gwên angylaidd, a'r ateb oedd, mewn llais crynedig a gwan : "Evans bach, a ydych yn meddwl fod ofn ar blentyn i ymollwng yn hyderus i freichiau ei dad." Dyna eiriau bendigedig o enau person gafodd ei droi allan fel *heretic* o eglwys Crist yn Mhencader. Dyn tyner-galon, llawn rhinweddau, oedd Titus yn ei fywyd a bu farw yn dangnefeddus.

EVAN EVANS.

Aelybryn,
Llanfihangel-ar-arth.

CONGL YR AWEN.

Y DDERWEN AR Y BRYN.

(*Buddugol yn Eisteddfod Pantdefaid, Ebrill 15, 1908*).

Dan y Dderwen ar y Bryn
Gorwedd wnaf mewn myfyr syn ;
Is y gronglwyd ddeiliog werdd
Trig ysbrydion ceinion cerdd ;
Yntau'r ceiliog euraidd big
Ddaw i byncio ar ei brig :
Dyma anedd pur gynghanedd,—
Llwyfan cyngherdd pêr y wig.

Dderwen fawr ! Fel cawres gref
Dyrch ei breichiau tua'r nef ;
Gwawdia ŵg y 'storm a'r chwa,—
Herio saethau amser wna :
Arlun ar y bryn yn wir
Ydyw o gadernid pur ;
Dan dreialon deil ei chalon
Drwy yr oesau fel y dur.

Dderwen hen ! Fel dolen gu
Cydia *heddyw* wrth *a fu;*
Meddwl am a welodd hon
Ddaw a phrudd-der drostwy'n dòn ;
B'le mae'r dwylaw gwladaidd, gwâr,
Rodd y fesen fach dan âr ?
Wedi curio, –llwyr falurio
Dan ddwrn angau tost ei fâr !

B'le mae'r plant a welsant hon
Pan nad oedd yn hwy na'm ffon ?
B'le mae'r llanc a'i feinir fwyn
Gynt gusanent dan y llwyn ?

B'le mae'r Derwydd claer ei wallt
Dani daniai deulu'r allt ?
Gyfrin fodau ! Eu cysgodau
Ddwg i'm grudd y deigryn hallt.

Dderwen unig ! Aml i ffrynd
Dal-frig welodd hon yn myn'd,—
Un yn nawf-le câd ar fôr,
Un yn nen-bren teml yr Ior ;
Olaf o'r hynafiaid yw,
Ymherodres ar ei rhyw ;
Dderwen olaf ! fe'i canmolaf
Ac fe'i caraf tra b'wyf byw.

Dderwen anwyl ! Santaidd bren
Ydyw im' er pan rodd Men
Ar ein serch ei chynes sêl
Dani gynt a'i gwefus fêl :
Ac er pan i'm geneth wen
Hedeg fry tu hwnt i'r llen,—
Waethaf angau, dan ei changau
Fe gaf weithiau wenau Men.

D. R. DAVIES (*Cledlyn*).
Cwrtnewydd.

BLODYN AR FEDD

Y ddiweddar chwaer Elizabeth Lewis, Bryntawe, Glais, priod anwyl Mr. Esiah Lewis.

Garedig fam ! daeth nos y glyn
Dros ganol dydd ei bywyd hi ;
Ond eto erys gyda ni
Yn lân fel toriad bore gwyn.

Bryntawe hoff ! Na wyla di,
Nid marw dy angyles fyw ;
Mae'n wanwyn beunydd gyda Duw;
O ! cân dy salmau gyda hi.

Bu fel yr haul yn gwasgar dydd
Ar lwybrau yr anghenus ddôl ;
Mae'r dydd yn gwynu ar ei hol—
Dring lethrau adgof bryniau Ffydd.

ALVA.

ENGLYN

I'r diweddar Barch. T. THOMAS.

Ein T.T. aeth at y Tad,—i uwch hedd,
Yn mraich hir ei gariad,
I gynal gwledd—ganol gwlad—
Hynaws gain ei esgyniad.

GWARNANT.

ENGLYN

I BENDDELW (*Bust*) R.J.J.

Penddelw eilw i weled—y gwron
A gerir fyd led-led ;
Y dyrfa ar yrfa red—
A diwyrn-gu dâl deyrnged.

CLWYDWENFRO.

PRIODAS.

UNWYD mewn glân briodas Mr. Esiah Hawkins, Gellinudd, a Miss Gladys Hapgood, Pontardawe, yn Eglwys Sant Pedr, gan y gweinyddwyr arferol. Heulwen deg fyddo ar eu llwybrau bob amser.

Boed i Esiah serchus
Gael gwynfa ogoneddus
Yn nghysgod haul a blodau pêr
Ei glodwiw dyner Gladys.

ALVA.

O ! boed i Gladys hapus hynt,
A gwyn o hyd fo'i gyrfa ;
Boed iddi haul a gloewon ser
Ei phrophwyd pêr Esiah.

BANOS.

MARWGOFION.

CHWEFROR 29, yn ei gartref ar Perry St., Lindsey, Pa., bu farw yr hen frawd, Thomas D. Thomas, y canwr, fel y gelwid ef gan rai, ar ol nychdod o bum mis, gan adael i alaru ar ei ol wraig, pump o feibion a thair o ferched. Ganwyd ef ar Hirwaen, Deheudir Cymru, Medi 1af, 1833, yn fab i Daniel ac Elizabeth Thomas. Ymunodd mewn glan briodas ag Esther, merch William ac Ann Jenkins, yn Aberdar yn 1859, a phe cai fyw am ychydig, buasai yn cael y fraint o ddathlu eu priodas euraidd. Ymfudodd Mr. Thomas i America yn 1869, gan ymsefydlu yn Morris Run. Yr oedd yno yn amser gweinidogaeth y Parchn. F. Teilo Evans a D. P. Jones, a bu yno hyd y flwyddyn 1890, pan y symudodd ef a'i deulu i'r lle hwn, lle y bu fyw, ag eithrio naw mlynedd yn Anita, hyd y diwedd. Er nad oedd yn aelod proffesedig o'r un eglwys hyd yn ddiweddar, bu fyw bywyd rhinweddol a moesol, a gwnaeth lawer iawn o ddaioni yn ei ddydd, yn neillduol gyda'r canu. Bu yn arweinydd corawl am lawer o flynyddoedd, ac arweiniodd i fuddugoliaeth lawer tro. Yr oedd ei enaid yn ymddigrifo yn ngweithiau y prif awdwyr. Cyfansoddai ambell i benill o farddoniaeth, ond mewn cerddoriaeth yr oedd gryfaf. Yr oedd yn gymydog rhagorol, bob amser yn barod i estyn llaw o gymhorth mewn angen. Yr oedd yn ddarllenwr manwl o'r YMOFYNYDD, bu yn dderbyniwr didor o hono am dros 48 o flynyddoedd, yn Undodwr egwyddorol drwy ei oes, ni chafodd y fantais drwy'r blynyddau o gydaddoli gyda hwynt gan fod yr eglwys Undodaidd agosaf rhyw 100 milldir o bellder o'i gartref. Mawrth 3, daeth tyrfa luosog a pharchus i dalu y gymwynas olaf i'w weddillion. Cafwyd gwasanaeth byr yn y ty ac awd yn orymdaith drefnus i'r capel. Ar ol y gwasanaeth yn y capel awd i'r gladdfa, Circle Hill, a daearwyd ei babell o bridd. Gwasanaethwyd ar yr amgylchiad yn effeithiol a medrus gan y Parch. J. Jenkins, Ebensburg, Pa. Yr oedd Mr. Thomas yn aelod o gymdeithas y K. of P., a throdd y brodyr allan yn lluosog a cherddasant o'r ty i'r gladdfa yn orymdaith drefnus o barch i'r ymadawedig. Gofaled yr Arglwydd am ei weddw oedranus yn ei hunigrwydd, ac arweinied y plant oll i rodio ffyrdd cyfiawnder.—O'r *Drych* yn benaf.

CHWEFROR 21, yn 49 oed, bu farw Mrs. Elizabeth Lewis, priod anwyl Mr. Esaiah Lewis, Bryndawe, Glais. Claddwyd yn mynwent Sant Pedr, Pontardawe, dydd Iau, Chwef. 27. Gwasanaethwyd yn y ty a chodwyd yr angladd gan y Parchn. E. Nicholas, Glais, a Wm. Alva Richards, ei gweinidog. Gwasanaethwyd yn yr eglwys gan y Parch. D. Morgan, curad y lle. Dyma un o'r angladdau mwyaf welsom yn y cylch erioed, a phobpeth yn dangos fod i'r ymadawedig barch mawr yn y lle a'r cylch. Un o hen gyff ffyddlon fferm y Cwm oedd Mrs. Lewis. Hanai o deulu Undodol henafol iawn Ni bu ei gwell erioed am ei haelioni a'i charedigrwydd, yn neillduol i'r tlodion. Bu yn fam i'r anghenus a'r trallodedig. Teimla y lle ei hangen. Mae ei choffa lwriaeth yn anwyl iawn. Bydded i'r aden ddwyfol fod yn gysgod uwchben Bryn Tawe yn y nos a'r ystorm.

Cym'doges wen oedd Betty,
A Christionoges lân ;
Ei choffa yn mhob lletty
Saif yn anfarwol gân.

ALVA.

Bu fyw yn harddwch Seion,
Bu farw yn y dydd,
Aeth adref o dreialon
Dros lethrau aur ei ffydd.

BANOS.

CHWEFROR 24, bu farw Mrs. Mary Thomas, Y Gate, Trebanos, yn 69 oed. Claddwyd hi ar y 26ain yn mynwent Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. W. Alva Richards. Cafwyd angladd lluosog a gwir deilwng ac ystyried y diwrnod garw o wynt a gwlaw. Bu Modryb Mari (oblegid dyna fel yr adnabyddid hi) yn ffyddlon iawn yn ei dydd gyda'r achos. Bu fyw bywyd tawel, eto yn llawn o ddaioni. Gair caredig a chymwynas a duwiolfrydedd oedd grym ei bywyd. Arhosed tangnefedd Duw gyda'r galarwyr yn eu horiau duon.

Un dawel fel y blodau
Oedd "Modryb Mari" gu;
Aeth at y côr gwynfydau
I'w bythol gartref fry. BANOS.

Bu fyw, bu farw hefyd
A'i thelyn yn ei llaw;
Ehedodd, do, o adfyd
I'r nefol wynfyd draw. ALVA.

MAWRTH 8, yn 4, Mount Pleasant, Aberdar, Thomas Hopkin, ychydig yn fyr o gyrhaedd ei 68 mlwydd oed. Claddwyd dydd Llun, y 13eg, yn y Cemetery, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd yn gwasanaethu.

MAWRTH 16, yn 82 oed, John Jones, Glantre, Talgareg. Dydd Iau canlynol claddwyd yn mynwent St Ioan. Pregethwyd yn y ty gan E. O. Jenkins, a gwasanaethwyd yn yr eglwys gan reithior y plwyf. Gadawodd chwaer, priod, plant a llu o gyfeillion eraill i alaru eu colled. Dyn tawel, a diddrwg oedd yr ymadawedig ac iddo air da yn mhlith ei gymydogion. Cafodd iechyd da hyd o fewn i ychydig flynyddau i ddiwedd ei oes faith. Bydded i'r teulu ymgysuro ac ymwroli.

MAWRTH 22, Ellen Evans, Rhydycais, Llanbedr, yn 26 mlwydd oed. Yr oedd Ellen yn ferch ieuanc mor rhinweddol a diniwed fel yr oedd iddi enw da gan ei holl gydnabod a chan y gwirionedd ei hun. Ac y mae enw da yn tarddu oddiar gymeriad da y peth mwyaf gwerthfawr o bob peth i bwyso arno wrth fyw ac wrth farw. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol fam a brodyr a chwiorydd heblaw perthynasau eraill. Rhodded y nefoedd nerth iddynt i ddal o dan y brofedigaeth chwerw wrth gofio fod eu colled hwy yn enill iddi hi. Gwasanaethwyd yn y ty ar ddydd ei hangladd gan y Parchn. Evan Evans, Soar, ac R.C.Jones, Brondeifi, a phregethwyd ei phregeth angladdol gan yr olaf yn nghapel Brondeifi. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Aberduar a gwasanaethwyd yn y capel a'r fynwent gan weinidog y lle.

MAWRTH 28, yn 15 oed, bu farw Idris Williams, mab anwyl Mr. a Mrs. Johnnie J. Williams, Y Graig, Trebanos. Daeth torf fawr prydnawn y dydd Mawrth canlynol yn nghyd i'r angladd. Chwareuodd Seindorf Arian Trebanos (o ba un yr oedd Idris yn aelod), yr 'Hen Ganfed' wrth y ty. Canai y dorf y geiriau yn doddedig iawn; yna chwareuodd y Seindorf wrth gychwyn oddiwrth y ty y *Dead March* yn Saul. Gwasanaethwyd yn yr angladd a phregethwyd i lond capel o bobl gan y gweinidog, W. Alva Richards. Claddwyd yn mynwent Gellionen; gweddiwyd ar lan y bedd gan Mr. Lewis Morgan, Myfyriwr, Clydach; yna chwareuodd y Seindorf 'Aberystwyth' yn effeithiol iawn. Galar a hiraeth leinw ein calon wrth gofnodi marwolaeth Idris anwyl. Bachgen ieuanc tyner, defnyddiol a llafurus oedd efe, yn helpu yr achos yn mhob ystyr, a phrophwydem bethau mawr iddo. Anfoddlon ydym orfod rhoddi yr Alto per, yr adroddwr mwyn, y crythor medrus, a'r crefyddwr cyflawn hwn yn ei fedd gwanwynol; ond rhaid boddloni, dyna ewyllys y Nef, rhaid plygu iddi. Gwened yr haul ar y teulu anwyl yn ei alar a'i storm.

Dros enyd Idris anwyl—a garodd
Ragori'n mhob gorchwyl;
Ni wnai wagedd un egwyl,
Awelon Nef lanwai 'i hwyl.
IOAN MEUDWY.

Eden i Dduw—dyna oedd ef,—a glan
Oedd ei glod a'i dangnef;
O welw nos i wawl y Nef
Aeth Idris o'i waith adref. ALVA.

Idris bur, o'i gur i'w gân—ehedodd
Heb oedi yn unman;
Ei wawr glir, a'i hyder glân,
Ddyry gynydd ar Ganaan. BANOS.

EBRILL 3, yn 84 oed, Margaret Davies, Tycanol, Prengwyn, Llandyssul. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn Mhantdefaid, a gwasanaethwyd gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan weinidog y Llwyn. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu er ys rhyw 15 mis. Gadawodd un ferch mewn galar ar ei hol.

EBRILL 4, yn 4 mis oed, Hannah, baban Evan a Hettie Davies, Myrtle Hill, Cwrtnewydd, Llanwenog; claddwyd y Mercher canlynol yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty gan J. Davies, Alltyplaca; yn y capel gan E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan James Davies. "Myfi a âf ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi."

EBRILL 5, yn 3 mis oed, Mary Anne Lewis, merch James a Martha Lewis, Fflux, ger Cribyn. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Cribyn y dydd Mawrth canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu.

EBRILL 13, yn 32 oed, Margaret Jones, Ty'rcapel, Llwynrhydowen. Un o gyfansoddiad eiddil a gwanaidd oedd yr ymadawedig bron erioed. Ni chaniatawyd iddi fwynhau bywyd yn yr ystyr roddir yn gyffredin i fywyd. Y ty a'r ystafell wely oedd ei byd hi y rhan fynychaf er y gwelid hi weithiau yn rhodio ychydig yn yr awyr agored. O angenrheidrwydd bywyd tawel oedd ei heiddo hi—bywyd na wyddai y byd tuallan fawr am dano—un tebyg i eiddo ambell flodeuyn, heb ddim i'w roi ond ei bresenoldeb a'i arogl. Ond nid oes yr un bywyd heb ei neges a'i wasanaeth—neges guddiedig a gwasanaeth dirgelaidd. Claddwyd y Iau canlynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Bydded i'r fam, yr hon fu'n ffyddlawn iddi drwy'r blynyddoedd, a'r perthynasau oll ymgysuro ac ymwroli.

EBRILL 19, yn 68 oed, yn ddisymwth iawn, Mary Jones, Tycanol, Gelligron, Llandyssul, gweddw y diweddar Mr. James Jones, gynt o Rhydowenfach, ac wedi hyny Moelhedogfach. Yr oedd yr ymadawedig yn un a berchid yn fawr yn ei chymydogaeth, ar gyfrif ei chymeriad gonest a gwyneb-agored. Nid oedd ynddi ddim malais ac eiddigedd yn llechu o'r tu cefn—yr hyn fuasai yn gredu, buasai yn ei draethu yn ddiofn. Gadawodd un ferch mewn galar ac unigedd ar ei hol. Claddwyd y dydd Mercher canlynol yn Mhantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

EBRILL 22, yn 74 oed, Mr. James Jones, Ebenezer Cottage, Llandyssul. Perodd y newydd am farwolaeth yr hen frawd adnabyddus brudd-der nid bychan yn y dref. Bu am flynyddau meithion yn Llythyrgludydd parchus, ac ymneilluodd o'r swydd 12 mlynedd yn ol gan dderbyn tâl blynyddol fel *pension* o'r Llywodraeth. Yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yn eang, ac yr oedd iddo air da yn mhob man o'r cylch hwnw. Yn Undodwr o argyhoeddiad ni adawai ei oleuni dan lestr, ac yr oedd gyda'r ffyddloniaf yn y Graig. Dygai fawr sel dros yr Ysgol Sul. "Ei le ni edwyn dim hono mwy." Pan mae'r ffyddloniaid yn myn'd bydded i eraill ymgyflwyno yn llwyrach i'r gwaith sydd raid o hyd fyned yn y blaen. Daearwyd yr hyn oedd farwol o hono yn medd ei briod yn Mhenybont (B.), pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd ddwy ferch (un fabwysiedig) heblaw perthynasau eraill mewn galar mawr. Y Tad goreu a'u cynorthwyo i alaru fel rhai nid heb obaith.

MANION AC HANESION.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Y mae y tanysgrifiadau blynyddol at yr uchod yn awr yn ddyledus. Derbynir a chydnabyddir pob rhodd yn ddiolchgar gan y Trysorydd—Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul.

Y VAN. — Yn Nghyfarfodydd Chwarterol Alltyplaca, pasiwyd ein bod fel eglwysi Cymreig yn cynorthwyo y mudiad drwy gasglu £10 tuag at y treuliau. Derbynir tanysgrifiadau at yr amcan hwn gan Olygydd yr YMOFYNYDD.

GRAIG, LLANDYSSUL. — Dydd Mercher, Mawrth 11, cynhaliodd Ysgol Sul y lle ei gwyl dê flynyddol. Daeth cynulliad rhagorol yn nghyd o blant a charwyr yr Ysgol Sul, a threuliwyd prydnawn a hwyr adeiladol a difyr. Rhoddwyd y tê eleni gan Mrs. Davies, Spring Street, a'r teulu, a chafodd eu hymdrechion eu coroni a llwyddiant. Cawsant eu cynorthwyo i weini wrth y byrddau gan foneddigesau serchog ac ewyllysgar. Yn y capel o dan lywyddiaeth Cadeirydd yr Ysgol Sul, Mr. Rhys Lloyd, rhanwyd cynwys y *Penny Bank*, yr hwn gyrhaeddai swm sylweddol, ac hefyd dystysgrifau i'r rhai fu yn llwyddianus yn yr arholiad. Cafwyd rhai anerchiadau ar bwysigrwydd mynychu yr Ysgol Sul yn gyson, gan obeithio y bydd mwy o ffyddlondeb nag erioed gael ei ddangos yn y pethau hyn. Talwyd diolchgarwch i bawb, ac yn enwedig i roddwyr y te am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd cyhoeddus o radd uchel yn Neuadd y Porth, pryd y cafwyd gwledd arall gan y plant mewn adrodd a chanu *action songs*, &c. Hefyd perfformiwyd dwy ddrama gan y bobl ieuainc yn rhagorol iawn. Ewch rhagoch eto, na fydded i neb laesu dwylaw, am fod gwaith yn eich disgwyl.

PANTDEFAID.—Dydd i edrych yn mlaen ato gan blant Pantdefaid o bob oedran yw diwrnod y "te parti." Ac ni fu eithriad i hyn eleni, fel y gwelwyd ar y 24ain o Fawrth diweddaf, pan ddaeth yn nghyd nifer luosog o blant ac hynafgwyr i gyfranogi o'r wledd ragorol ddarparwyd ar eu rhan gan deulu caredig Coedfoelisaf, a theulu ieuengach, ond nid llai caredig, Maesnoni, Llanllwni. Treuliwyd y prydnawn yn ddifyr a diwyd. Yn mhlith y plant teimlai pawb, hyd yn oed yr hynaf yno, eu bod oll yn blant unwaith eto. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adloniadol maith a dyddorol, o dan lywyddiaeth y Parch. E. O. Jenkins. Y plant yn benaf fu yn ei gynal ac aethant trwy eu gwaith yn ganmoladwy, o dan ofal medrus y brodyr David Davies a Tommy Evans. Rhanwyd gwobrau mewn llyfrau yn ol eu teilyngdod i'r plant am eu mynychiadau cyson o'r Ysgol Sul, gan obeithio y bydd i hyn esgor ar ragor o ffyddlondeb yn y dyfodol. Ar ymadawiad Mrs. James, Coedfoel o'r gymydogaeth, yr hon sydd wedi bod yn organyddes ffyddlon a gweithgar am flynyddau, cyflwynwyd gan Miss Jones, Brynowen, dros yr eglwys, Feibl hardd, Llyfr Emynau a Hinfesurydd iddi, fel arwydd o'n parch a'n gwerthfawrogiad o honi, gan ddymuno hir oes a phob llawenydd iddi hi a'i phriod. Wrth derfynu talwyd y diolchiadau arferol i bawb.

CAPELYFADFA A LLWYNRHYDOWEN.—Ebrill 12fed, derbyniwyd 15 o aelodau newyddion yn Capelyfadfa a 13 yn Llwynrhydowen. Bydded i'r oll o honynt brofi eu hunain yn ffyddlon a gweithgar gyda holl ymdrechion yr eglwysi a'r ysgolion Sul.

TREBANOS. — Llongyfarchiadau calon i Isaac Emlyn Hopkins ar ei waith yn buddugoliaethu yn Eisteddfod Salem, Glandwr, Mawrth 14eg. Daeth allan yn oreu o 28 o chwareuwyr ar y berdoneg. *Well done*, Isaac.

J. D. Lewis, Argrafffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS.

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for R. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ. CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettleford, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, H. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES) FREE ON REQUEST.

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.